# T19 WEDI CYRRAEDD PEN Y DAITH?




Wel dyna ni, oni bai bod rhywun wedi penderfynu defnyddio'u synnwyr cyffredin ers inni fynd i'r wasg, rydym ni wedi colli'r gwasanaeth bws T19 o Landudno i Flaenau Ffestiniog.

Mae'n rhaid imi gyfaddef, fedra i ddim deall o gwbl pam ein bod ni'n colli gwasanaeth bws gwledig hollbwysig o ystyried mai prif nod agenda gwyrdd Llywodraeth Cymru ydy gwella cludiant cyhoeddus a sicrhau nad ydym ni'n dibynnu cymaint ar gerbydau preifat. Wrth gwrs mae'r gwleidyddion yn beio'i gilydd ond dydyn nhw heb fynd rhagddi i fynd i'r afael â'r sefyllfa ychwaith. Yn amlwg mae'r rhesymau dros gael gwared ar y gwasanaeth yn gymhleth dros ben. Fodd bynnag dw i'n siŵr pe bai pawb sydd ynghlwm yn dod ynghyd i drafod byddai modd mynd i'r afael â'r sefyllfa.

Does dim bai o gwbl ar Llew Jones, gan eu bod nhw wedi parhau i gynnal y gwasanaeth dros y blynyddoedd diwethaf gan wneud colledion cynyddol. Maen nhw wedi gorfod dal ati gyda'u gwasanaeth er yr addewidion pitw gan Gyngor Conwy, Cyngor Gwynedd, Traws Cymru a Trafnidiaeth Cymru. At hyn, roedd y gostyngiad sylweddol yn y nifer o bobl oedd yn teithio yn ystod y pandemig yn ergyd iddyn nhw yn ogystal.

Er gwaethaf sawl cais i Gyngor Gwynedd am gyllid i gludo disgyblion Blaenau i Ysgol Dyffryn Conwy ni chafwyd unrhyw ymateb ac felly roedd y bws ond yn teithio cyn belled â Dolwyddelan. Er bod Cyngor Conwy yn honni nad ydyn nhw'n cyfrannu tuag at gynnal y gwasanaeth T19, roedd y cyllid a dderbyniwyd ganddyn nhw tuag at drafnidiaeth i ysgolion yn gymorth aruthrol i gynnal y gwasanaeth. Bydd yn rhaid i Gyngor Conwy barhau i gyflwyno'r cyllid hwnnw i'r gweithredwr bws newydd maen nhw wedi cynnig y cytundeb iddyn nhw. Rwy'n siŵr y buasai Cyngor Gwynedd wedi gallu tyrchu i'w pocedi rhyw fymryn i gyfrannu tuag at y gost o gludo'u plant i'r ysgol.

At hynny, y bwriad oedd trefnu bod y T19 yn gweithredu fel gwasanaeth cyswllt ar gyfer y llwybr Traws Cymru. Fe fuddsoddwyd miliynau o bunnoedd o arian y trethdalwyr i brynu tri bws trydan newydd fel rhan o brosiect rhwng Cyngor Gwynedd a Trafnidiaeth Cymru. Cafodd y bysiau hyn eu haddo i Llew Jones er mwyn datblygu gwasanaeth T19 heb unrhyw allyriadau. Coeliwch neu beidio mae'r bysiau'n sefyll yn segur rhywle yng Ngwynedd erbyn hyn gan fod y prosiect wedi chwalu a hynny wedi'i Gyngor Gwynedd wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer terfynfa bysiau trydan arfaethedig Blaenau Ffestiniog yn Nhanygrisiau.

Cyhoeddodd Cyngor Conwy ddatganiad i'r wasg ar Chwefror y 9fed gan